PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 3 MAWRTH 2021

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: James Downe (Cadeirydd)<br>Hollie Edwards-Davies, Jason Bartlett, Arthur Hallet a/ac Chrissie Nicholls<br>Y Cynghorwyr: Cunnah, Sandrey a/ac Williams<br><br>Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas |

86 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod hwn, roedd y Cynghorydd Williams yn hwyr yn mynychu'r cyfarfod o ganlyniad i faterion technegol wrth ymuno â'r cyfarfod.

87 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

88 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 9 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir, ynghyd â chofnodion y Panel Gwrandawiad ar 13 Ionawr 2021.

89 : FFRAMWAITH MOESEGOL STATUDOL - DEDDFWRIAETH NEWYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi gwybod am y newidiadau i'r fframwaith moesegol statudol, sy'n cael eu cyflwyno gan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn:

(i) Ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'u grwpiau, ac i gydweithredu â phwyllgorau safonau (a fydd yn dod i rym o fis Mai 2022);
(ii) Ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau lunio adroddiadau blynyddol ar arfer eu swyddogaethau (a fydd yn dod i rym ar ôl, ac mewn perthynas â, blwyddyn ariannol 2022/23); ac
(iii) Atgyfnerthu'r ddarpariaeth ynghylch ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymddygiad aelodau llywodraeth leol.

Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd angen ystyried a oes angen trefnu hyfforddiant penodol ar gyfer arweinwyr grwpiau gwleidyddol neu a yw eu dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad yn ddigon iddynt allu herio Aelodau ynghylch eu Hymddygiad. Mae arweinwyr hefyd yn gallu cael cyngor oddi wrth y Swyddog Monitro a'i Dirprwy. Efallai y bydd gan Gynghorau eraill syniadau eraill; gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth; a bydd canllawiau cyffredinol pellach yn cael eu cynhyrchu cyn mis Mai 2022.

Nododd y Pwyllgor fod Caerdydd ar hyn o bryd yn dangos arfer gorau mewn perthynas â chynhyrchu Adroddiad Blynyddol.

Trafododd y Pwyllgor y ffordd orau o fonitro cydymffurfiaeth, rhai enghreifftiau o nodi cyfranogiad Arweinwyr Grŵp mewn materion a godwyd gan Yr Aelodau; y posibilrwydd o gyfarfod y Pwyllgor ag Arweinwyr y Grŵp yn amlach; a chreu hyfforddiant penodol o amgylch pynciau penodol, er enghraifft datrys gwrthdaro a chyfryngu.

Gellir ychwanegu trafodaeth ar yr offer sydd eu hangen i fonitro cydymffurfiaeth o fis Mai 2022 at Raglen Waith 22021-22.

Penderfynodd y Pwyllgor:

- Nodi'r wybodaeth a nodir yn yr adroddiad; ac
- Argymell i'r Cyngor ddiwygio cylch gorchwyl y Pwyllgor fel y nodir ym mharagraff 7, ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym.

90 : CANLLAWIAU NEWYDD YR OMBWDSMON DRAFFT AR Y COD YMDDYGIAD - YMGYNGHORI

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi manylion ymgynghoriad ar y canllawiau drafft newydd ar God Ymddygiad yr Aelodau. Ceir canllawiau ar wahân ar gyfer Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned sydd wedi'u teilwra i natur wahanol y rôl y mae cynghorwyr cymuned yn ymgymryd â hi yn eu cymunedau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw'r canllawiau wedi newid yn sylweddol ond ei fod wedi'i ddiweddaru. Ceir rhai Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol wedi'u diweddaru a hefyd enghreifftiau achos diweddar wedi'u darparu, ac mae dau ohonynt yn dod o Gaerdydd; cael eu defnyddio fel pwyntiau dysgu.

Nododd y Pwyllgor fod canllawiau drafft Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned wedi'u dosbarthu gan Un Llais Cymru, gyda sylwadau i'w dychwelyd atynt erbyn 21 Mawrth 2021.

Trafododd y Pwyllgor y canllawiau ac yn arbennig y defnydd o'r gwahanol enghreifftiau sy'n dod â'r materion i'r amlwg a bydd yn helpu'r Aelodau i ddeall beth sy'n torri'r Cod ac nad yw'n torri'r Cod. Bydd y dolenni i'r canllawiau yn cael eu cynnwys yng Nghyfarfod Briffio aelodau nesaf y Pwyllgor.

Penderfynodd y Pwyllgor Nodi'r canllawiau drafft diwygiedig a rhoi unrhyw sylwadau erbyn 14 Mawrth 2021 i'r Swyddog Monitro i'w galluogi i gael eu coladu a'u darparu i'r Ombwdsmon erbyn 21 Mawrth 2021.

91 : PENODIADAU AELODAU ANNIBYNNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn amlinellu'r angen i'r Cyngor wneud dau benodiad Aelod Annibynnol newydd i lenwi swyddi gwag a gododd ym mis Tachwedd 2021 a mis Mehefin 2022.

Trafododd y Pwyllgor hyd cyfnod swydd Aelodau Annibynnol a nododd yr argymhelliad y dylid gwneud penodiad am 4 blynedd gyda'r potensial am ail dymor o 4 blynedd o wasanaethu. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gellid canfasio cyfnod y swydd gydag ymgeiswyr ar adeg y cyfweliad.

Siaradodd y Pwyllgor am eu profiad o'r broses recriwtio a'r awgrymiadau a wnaed ynghylch ble y gellid hysbysebu'r swyddi gwag; cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau a anfonwyd at Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, Esyt a Wen Wales. Gwirfoddolodd yr Is-gadeirydd i gymryd rhan mewn cyfweliad fideo byr yn amlinellu rôl Aelod Annibynnol i fod yn rhan o'r Pecyn Cais.

Trafododd y Pwyllgor y broses ar gyfer ethol y Cadeirydd, y mae'n rhaid iddo fod yn Aelod Annibynnol, ac nad yw'n ofynnol i'r Cadeirydd gael ei ailethol bob blwyddyn.

Penderfynodd y Pwyllgor:

- Cytuno ar yr hysbyseb swydd wag ddrafft i Aelodau Annibynnol (Atodiad A), manyleb y person (Atodiad B) a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer y broses benodi;
- Cytuno ar sefydlu Panel Penodiadau sy'n cynnwys tri aelod, fel y nodir ym mharagraffau 14 i 16 o'r adroddiad, gydag awdurdod dirprwyedig i lunio rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr a gwneud argymhellion wrth eu penodi;
- Awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i wneud yr holl drefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer y broses penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys hysbysebu'r swyddi gwag a chynnal y Panel Penodiadau; a
- Nodi y bydd argymhellion y Panel Penodiadau ar benodi'r ddau aelod annibynnol i'r Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo.

92 : Y DIWEDDARAF AR GWYNION

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion a wnaed yn ystod Chwarter 3 2020/21 yn erbyn Aelodau Cyngor Caerdydd neu unrhyw un o Gynghorau Cymuned Caerdydd, gan honni torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod 8 o'r 9 cwyn wedi'u gwneud mewn perthynas ag un digwyddiad canfyddedig; gwrthododd yr Ombwdsmon ymchwilio gan nad oedd digon o dystiolaeth o dorri'r Cod.

Nododd y Pwyllgor, gydag Etholiadau'r Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu sydd ar y gweill, y bu trafodaethau gyda Chwipiaid y Grŵp ynghylch pwysigrwydd y Cod Ymddygiad a'r angen i atgyfnerthu ymddygiad priodol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod pryderon a godwyd mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio a sylwadau a wnaed ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi'u codi gyda Chwipiaid Grŵp. Trafododd y Pwyllgor natur y cwynion i'r Ombwdsmon mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio a'r materion sensitif y mae'r Pwyllgor yn ymdrin â hwy ar hyn o bryd ar hyn o bryd.

Penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

93 : BLAEN-GYNLLUN 2020-2021

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith diwygiedig ar gyfer 2020-21 a chawsant wahoddiad i wneud sylwadau ac awgrymiadau ar y Cynllun Gwaith.

Trafododd y Pwyllgor pwy sy'n cynnal yr hyfforddiant amrywiol a ddarperir; cynhelir yr hyfforddiant Cod Ymddygiad gorfodol gan y Swyddog Monitro ar gyfer Aelodau Etholedig ac ar gyfer hyfforddiant Cynghorau Cymuned, mae naill ai'n cael ei gynnal gan y Swyddog Monitro neu Un Llais Cymru. Bydd sefydliadau allanol yn darparu unrhyw hyfforddiant sydd y tu allan i arbenigedd y Swyddog Monitro, er enghraifft datrys gwrthdaro neu gyfryngu. Mae hefyd yn werth i Aelodau Annibynnol fynychu a chymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi. Trafododd y Pwyllgor hefyd fanteision sesiwn gloywi ar y Cod Ymddygiad yn arwain at Etholiadau'r Senedd/Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai ac Etholiadau Lleol fis Mai nesaf y gwahoddir Aelodau Annibynnol a nodyn atgoffa i Gynghorau Cymuned gael mynediad at hyfforddiant Cod Ymddygiad Un Llais Cymru ar gyfer Aelodau newydd.

Trafododd y Pwyllgor eitemau i'w hychwanegu at y Rhaglen Waith wrth symud ymlaen a oedd yn cynnwys:

- Deddfwriaeth newydd o fis Mai 2022 a'r ddyletswydd ar Arweinwyr Grŵp
- Ystyried fformat yr Adroddiad Blynyddol
- Recriwtio aelodau ac ethol Cadeirydd newydd y Pwyllgor
- Crynodeb o'r Cod Ymddygiad Llyfr Achosion gan yr Ombwdsmon fel y mae'n ymwneud ag Awdurdodau eraill

Penderfynodd y Pwyllgor nodi Cynllun gwaith 2020-21

94 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

95 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau a Moeseg yw dydd Mercher 7 Gorffennaf 2021 am 5.00 pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.12 pm